

Covid-19 : Canllawiau ar Barhad Busnes

Datblygwyd y rhain i'ch helpu i gynllunio ar gyfer eich busnes yng ngoleuni'r Coronafeirws (Covid-19) a'i effaith ledled y Deyrnas Unedig.

Mae'r canllawiau hyn wedi cael eu datblygu i dynnu sylw at bethau y dylid eu hystyried yng ngoleuni'r Feirws Covid-19. Mae'r sefyllfa'n symud yn gyflym iawn, a dylech sicrhau bod gennych yr wybodaeth ddiweddaraf o ran cyhoeddiadau'r Llywodraeth ynghylch iechyd y cyhoedd a chymorth y Llywodraeth ar gyfer busnesau.

Rydym yn prysur ddatblygu rhagor o offer a chanllawiau, a byddwn yn eu cyhoeddi yn y dyddiau nesaf. Os ydych am siarad ag un o'n Cynghorwyr Busnes, ffoniwch ni ar 0300 111 5050 neu anfonwch neges e-bost i sbwenquiries@wales.coop a gallwn drefnu galwad yn ôl.

Staff

Anogwch eich staff i ddilyn y canllawiau a osodir gan lechyd Cyhoeddus Cymru fel y gallant leihau'r risg o haint. Mae'r wybodaeth hon yn newid yn gyson, felly gwiriwch <https://phw.nhs.wales/news/public-health-wales-statement-on-novel-coronavirus-outbreak/>

Camau gweithredu posibl

- Caniatewch i staff weithio gartref, lle bo hynny'n bosibl, er mwyn lleihau eu rhyngweithio â chydweithwyr eraill.
- Edrychwch ar y canllawiau diweddaraf ynghylch iechyd y cyhoedd, ac ystyriwch ganslo digwyddiadau a chyfarfodydd sy'n dod â staff ynghyd mewn un lle.
- Lle bo hynny'n bosibl, defnyddiwch raglenni ffôn-gynadledda a fideogynadledda, e.e. Skype neu Zoom. <https://www.skype.com/cy/> <https://zoom.us/>
- Darparwch hylifau diheintio dwylo a chlytiau diheintio, ac anogwch bob aelod o staff i sychu'r gweithfannau cyn iddynt ddechrau ar eu diwrnod gwaith, ac i olchi eu dwylo'n drylwyr ac yn aml. Defnyddiwch glytiau diheintio i sychu dolenni drysau, tapiau ac arwynebau eraill sy'n cael eu cyffwrdd yn aml.
- Nodwch y staff sy'n hanfodol i'r busnes, er enghraifft y Swyddog Cyllid, a datblygwch gynllun o'r modd y byddwch yn gweithredu os bydd yr unigolyn hwnnw'n mynd yn sâl. Os oes gennych nifer o bobl yn rhan o dîm sy'n bwysig i'r busnes, er enghraifft y tîm cyllid, yna ystyriwch eu cael yn gweithredu ar ffurf dau is-dîm er mwyn lleihau'r risg y bydd y tîm cyfan yn cael ei heintio ar yr un pryd. O gael dau is-dîm, gallent weithio bob yn ail rhwng y swyddfa a'r cartref ar ddiwrnodau gwahanol.
- Sicrhewch fod yna linell orchymyn glir yn bodoli er mwyn i benderfyniadau gweithredol gael eu gwneud yn gyflym. Datblygwch gynllun sylfaenol o ran y modd y bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud os bydd rhywun allweddol, er enghraifft y Cadeirydd neu'r Prif Swyddog Gweithredol, yn




**Cronfa Datblygu
Rhanbarthol Ewrop
European Regional
Development Fund**

Busnes Cymdeithasol Cymru

Social Business Wales

Yn fentrus gadarnhaol

Positively enterprising



mynd yn sâl.

Cyllid

- Os oes gennych bolisi cronfeydd wrth gefn, ewch ati yn y Bwrdd i drafod faint (os o gwbl) o'ch cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio i gynnal y busnes yn ystod y chwe mis nesaf.
- Cyflymwch geisiadau am daliadau, ac anfonwch anfonebau'n brydlon a mynd ar eu trywydd.
- Agorwch drafodaethau â rhanddeiliaid megis yr Awdurdod Lleol ac asiantaethau cymorth.
- <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-51916208>
- Sgwrsiwch â phobl y mae arnoch arian iddynt ynghylch y potensial i oedi'r taliadau.
- <https://businesswales.gov.wales/cy/newyddion-blogiau/newyddion/llynell-gymorth-ynghylch-treth-i-fusnesau-mae'r-coronafeirws-covid-19>
- Sgwrsiwch â'ch banc i drafod cyfleusterau gorddrafft.
- Sgwrsiwch â Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru am fenthyciad pontio brys.
- <https://wcva.cymru/cy/trefniadau-ariannu/buddsoddiad-cymdeithasol-cymru/>
- Siaradwch â'ch cymuned: efallai y gallwch ofyn i bobl y gymuned eich cefnogi trwy brynu talebau i'w defnyddio yn y dyfodol neu ddatblygu ymgyrch cyllido torfol i helpu yn achos diffyg refeniw.
- <https://www.crowdfunder.co.uk/pay-it-forward>
- Siaradwch â'ch aelodau am roddion, yn ariannol ac mewn nwyddau, yn ogystal ag am fenthyciadau posibl ganddynt (bydd yn rhaid talu'n ôl iddynt, yn amlwg).
- Gostyngwch eich treuliau a'ch costau lle bo hynny'n bosibl. Gall hyn gynnwys siarad ag aelodau'r tîm ynghylch defnyddio gwyliau pan fo yna fwlch yn y galw. Gellir dod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf yma <https://www.acas.org.uk/coronavirus>

Gwerthiant

- ⇒ Os ydych yn gwerthu'n uniongyrchol i'r defnyddiwr, yna mae'n debygol y byddwch yn gweld gostyngiad mawr yn y galw wrth i ragor o bobl naill ai ddewis aros gartref neu orfod gwneud hynny. Pethau i'w hystyried:
- ⇒ A allwch gynnig eich gwasanaethau ar-lein, neu a allwch gyfathrebu â'ch cwsmeriaid trwy'r cyfryngau cymdeithasol a negeseuon e-bost?
- ⇒ A allwch ddarparu gwasanaeth cludo i'r cartref? (Sicrhewch eich bod yn dilyn y canllawiau iechyd cyhoeddus diweddaraf.)
- ⇒ A allwch ragwerthu gwasanaeth ar gyfer y dyfodol trwy roi talebau 'nawr?
- ⇒ A allwch arallgyfeirio'n gyflym, datrys problem newydd? Efallai y bydd unigrwydd ac arwahanrwydd yn broblem fawr yn y gymdeithas, yn ogystal â sicrhau cymorth i bobl agored i niwed sy'n gorfod aros gartref. A allech ddefnyddio eich adnoddau sbâr i ddatrys y broblem hon mewn modd diogel ac effeithiol?

**Hyd yn oed os sgwrs yw'r unig beth y mae arnoch ei hangen,
cysylltwch â ni i drefnu galwad yn ôl.**

Ffôn: 0300 111 5050

E-bost: sbwenquiries@wales.coop



UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Datblygu
Rhanbarthol Ewrop
European Regional
Development Fund**